PRIFYSGOL BANGOR / BANGOR UNIVERSITY

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# 10 ways to make fieldwork more inclusive and accessible : a guide for educators

Yorke, Lynda; Hutchinson , Simon; Hurrell , Liz

Published: 31/05/2022

Publisher's PDF, also known as Version of record

Cyswllt i'r cyhoeddiad / Link to publication

*Dyfyniad o'r fersiwn a gyhoeddwyd / Citation for published version (APA):*
Yorke, L., Hutchinson , S., & Hurrell , L. (2022). *10 ways to make fieldwork more inclusive and accessible : a guide for educators*.

**Hawliau Cyffredinol / General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

12. May. 2024

CULTIVATE

growing an inclusive teaching environment

# 10 ffordd i wneud gwaith maes yn fwy cynhwysol a hygyrch: arweiniad i addysgwyr.




Paratowyd gan Dr Lynda Yorke, Dr Simon M. Hutchinson, a Dr Liz Hurrell, gyda chyfraniadau gan y gymuned academaidd.

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY | University of Salford MANCHESTER | UNIVERSITY of York | UKRI Natural Environment Research Council

# Gwaith maes amgylcheddol: beth yw'r problemau?

## Gall rhwystrau mewn gwaith maes fod yn weladwy ac anweladwy.

Mae gwaith maes ac ymweliadau â safleoedd yn elfen ganolog o bynciau amgylcheddol (addysgu ac ymchwil). Fodd bynnag, mi all gwaith maes fod yn rhwystr i rai grwpiau o fyfyrwyr. Gall rhai o'r rhwystrau hyn fod yn heriau corfforol fel dringo llethrau serth neu gerdded ar dir anwastad, ond mae llawer o rwystrau anweladwy hefyd sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, anghenion dysgu penodol neu am nad yw pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli yn yr amgylcheddau hyn.

Mae angen inni sicrhau bod pob addysgu a dysgu'n hygyrch ac, yn y sector cyfan mae ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen i feddwl yn fwy gofalus am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) ac felly hygyrchedd ym mhob agwedd ar waith maes.

## Mae llawer o enghreifftiau o arferion gorau sy'n sicrhau addysgu maes mwy cynhwysol.

Cafodd y llyfryn hwn ei gynhyrchu drwy ddod â'r gymuned academaidd ynghyd i drafod yr heriau sy'n gysylltiedig â gwaith maes a sut mae aelodau'r gymuned wedi rhoi sylw i'r heriau hynny. Mae hyn wedi ein helpu i ganfod 10 ffordd i wneud gwaith maes yn fwy cynhwysol a hygyrch. Ni fwriedir i hon fod yn rhestr wirio gyflawn i'w dilyn mewn trefn, mae'n hytrach yn cynnig awgrymiadau, syniadau a chymorth i wella dysgu ac addysgu yn y maes, yn enwedig ar lefel israddedigion.

## Beth yw'r prosiect CULTIVATE?

Roedd CULTIVATE yn brosiect a ariannwyd gan NERC a oedd yn ymdrin â thechnolegau digidol, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a chyrsiau maes i israddedigion. Nod y prosiect oedd creu amgylchedd addysgu cynhwysol i bawb mewn gwyddorau amgylcheddol.

- Sut allwch chi wneud hynny?
- Beth ddylech chi fod yn ei ystyried?
- I ble all pobl fynd am help a chefnogaeth?

## Sut mae defnyddio'r arweiniad hwn

Nid yw hwn yn ymarferiad ticio blychau.

Drwy ddod â'r gymuned academaidd ynghyd i drafod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) mewn gwaith maes, rydym wedi canfod 10 ffordd i helpu i sicrhau bod eich addysgu mewn gwaith maes mor gynhwysol ac mor hygyrch ag sy'n ymarferol bosibl. Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac mae wedi'i bwriadu fel arweiniad yn unig, ac mae llawer o ystyriaethau EDI yn ymwneud â chyd-destunau penodol.

1. Beth yw fy rhagdybiaethau o waith maes?
2. A ydych chi'n gwneud tybiaethau am brofiad a disgwyliadau eich dosbarth?
3. Sut ydych chi'n mynd i gyflwyno'r cynnwys? Beth ddylech chi ei ystyried?
4. Trefnu gweithgareddau.
5. Beth yw'r costau?
6. Llety ac arlwyo.
7. A ydych chi wedi rhannu eich cynllun?
8. Iechyd staff a myfyrwyr.
9. Lleoliadau maes ac EDI.
10. Nid ydych chi ar eich pen eich hun.

# 1. Beth yw fy rhagdybiaethau o waith maes?

Herio rhagdybiaethau bod gwaith maes yn hanfodol, bod angen iddo fod yn bellennig, ei fod yn cael ei ystyried fel y 'rhan orau' o'r cwrs a bod angen iddo fod yn galed yn gorfforol.

Gwerthuswch eich deilliannau dysgu. Gall gwaith maes fod yn hanfodol i gyflawni eich deilliannau dysgu. Yn yr un modd, gellid cyflawni'r un deilliannau dysgu heb waith maes neu drwy dripiau mwy lleol, a thrwy hynny leihau rhai rhwystrau.




## Adolygu eich gwaith maes yn flynyddol:

- A yw eich safle(oedd) yn dal yn hygyrch?
- A oes angen imi adolygu problemau a ddeilliodd o'r trip diwethaf?
- Yn achos carfanau unigol, pa addasiadau a all fod angen eu gwneud?

## 2. A ydych chi’n gwneud tybiaethau am brofiad a disgwyliadau eich dosbarth?




Ni fydd gan bob myfyriwr brofiad o waith maes.

Yn y flwyddyn gyntaf yn enwedig, efallai na fydd gan fyfyrwyr ddim neu fawr ddim profiad o waith maes. Efallai na fydd ganddynt ddim dealltwriaeth o:

- Y tywydd (pa mor oer y gall fod wrth sefyll i wneud nodiadau).
- Y gofynion ffitrwydd neu gorfforol.
- Hyd y diwrnod.
- Y dirwedd.




Dylid osgoi gwneud tybiaethau a, phan yn bosibl, dylid gwneud paratoadau cyn y daith i asesu lefelau sgiliau a ffitrwydd.

## 3. Sut ydych chi’n mynd i gyflwyno’r cynnwys? Beth ddylech chi ei ystyried?

Efallai nad taith maes gyda darlith awyr agored fesul safle fydda’r ffordd fwyaf hygyrch o gyflwyno eich deilliannau dysgu. Efallai na fydd y myfyrwyr yn gallu eich clywed yn eglur ac efallai y bydd myfyrwyr â dyslecsia neu rai niwroamrywiol yn teimlo nad oes digon o amser i brosesu’r wybodaeth ac i wneud cofnod digonol yn y llyfr nodiadau gwaith maes.




Gallai’r canlynol wneud taith maes yn fwy hygyrch:

- Fformatau dysgu drwy brofiad.
- Darparu nodiadau a lluniau cyn, yn ystod ac ar ôl y daith.
- Rhoi opsiynau i fyfyrwyr e.e. ysgrifennu mewn llyfr nodiadau gwaith maes neu nodiadau llais wedi’u recordio; canllawiau gwaith maes fel copi caled neu ar fformat ap.
- Gallai taith maes rithiol cyn y daith ei hun helpu myfyrwyr i fod yn fwy cyfarwydd â’r prif gynnwys.




Ystyriwch densiynau tasgau grŵp, arddulliau dysgu unigol, a nodweddion personol.

# 4. Trefnu gweithgareddau.

Mae gwaith maes (yn enwedig os yw'n breswyl) yn ddull drud o addysgu, ac mae temtasiwn i wasgu llawer i mewn. Fodd bynnag, gall gwaith maes fod yn ddwys gyda myfyrwyr yn cydweithio'n glos â'i gilydd am oriau hir, yn bwyta gyda'i gilydd ac efallai'n rhannu ystafell wely hefyd. Gall hyn, yn ychwanegol at holl effeithiau corfforol gwaith maes, olygu y bydd staff a myfyrwyr wedi blino ac o dan straen.




---

Gwnewch yn siŵr bod digon o amser rhydd (a gofod) yn cael ei neilltuo i staff a myfyrwyr, a dylech gyfleu hyn yn glir gan osgoi'r angen am waith ac asesiadau min nos.

---

Yn achos teithiau maes sy'n her yn gorfforol, dylech feddwl yn ofalus am amseriad y gweithgareddau. Er enghraifft, a allwch chi amseru'r ddringfa serth cyn cinio er mwyn i bawb gael seibiant ac i roi cyfle i'r aelodau arafach i ddal i fyny.

Yn eich amserlen dylech ystyried anghenion myfyrwyr unigol. Er enghraifft, ar dripiau diwrnod dylid osgoi cychwyn yn rhy gynnar er mwyn i fyfyrwyr gael cyfle i ollwng eu plant cyn cychwyn. Dylid ystyried anghenion crefyddol, fel yr angen i weddïo.



# 5. Beth yw eich costau?

Gall cefndiroedd economaidd-gymdeithasol fod yn rhwystr cudd mewn gwaith maes.

Mae dillad ac esgidiau priodol yn hanfodol ar gyfer iechyd a diogelwch, ond maent yn golygu cost i fyfyrwyr. Mae costau cudd hefyd fel gofynion technoleg ddigidol, arian ar gyfer byrbrydau a gweithgareddau hamdden.

Dylech ystyried:

- Cynlluniau benthyg offer yn yr adran.
- Mannau gadael offer lle gall myfyrwyr blwyddyn olaf gyfrannu offer nad oes ganddynt ddefnydd iddo.
- Cyngor ymarferol ar yr hyn mae gwir angen amdano yn y maes.




Byddwch yn onest ac eglur ynglŷn â'r costau cyn gynted â phosibl.




Gall rhai teithiau opsiynol olygu costau ychwanegol a bydd angen i staff ddod o hyd i leoliadau a chyfleusterau cost effeithiol ar gyfer teithiau maes. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ystyried deilliannau dysgu eich modiwlau/cwrs ochr yn ochr ag anghenion y myfyrwyr e.e. llety.

# 6. Llety ac arlwyo.

Mae teithiau maes cost effeithiol yn aml yn golygu defnyddio llety hostel sylfaenol gan rannu ystafelloedd gwely. Gall hyn fod yn anodd i fyfyrwyr:

- Ag anghenion meddygol (gweladwy ac anweladwy).
- Ystyriaethau niwroamrywiol.
- Pryderon ynglŷn â rhywedd.

Gall fod yn anodd datrys y materion hyn oherwydd prinder yr ystafelloedd sengl sydd ar gael.




---

Dylech ddarganfod a choladu anghenion eich myfyrwyr; siaradwch ag unigolion, a cheisiwch gyfaddawdu cyn cychwyn.

---

Gall bwyd fod yn achos pryder i fyfyrwyr ac o gofio gofynion corfforol gwaith maes mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn bwyta'n dda.

Dylech goladu gwybodaeth am:

- Gofynion diet y myfyrwyr, rhannwch wybodaeth am alergeddau â'ch darparwyr.
- Dylid ystyried sensitifrwydd crefyddol a diwylliannol o ran bwyd ac alcohol; byddwch yn ymwybodol o adegau ymprydio.

# 7. A ydych chi wedi rhannu cynllun eich taith maes?

Gall cyhoeddi amserlen fanwl o'r gweithgareddau helpu i leddfu llawer o bryderon a helpu i reoli disgwyliadau.




Bydd rhai myfyrwyr am gael gwybodaeth fanwl i reoli cyflyrau sydd ganddynt eisoes. Bydd myfyrwyr eraill yn poeni am yr annisgwyl. Gall cyfarwyddiadau manwl, amserlenni dyddiol, a sesiynau briffio yn y bore helpu myfyrwyr i baratoi eu hunain, i wneud penderfyniadau ar sail rhesymeg ynglŷn â chyfranogi a rhoi gwybod i staff am broblemau posibl a all godi.

Bydd rhannu cynllun yn gynnar yn hwyluso trafodaethau.

Gwnewch yn siŵr bod eich cynllun yn cynnwys yr agweddau academaidd ac ymarferol e.e.:

- Manylion am egwyliau, fel y gall myfyrwyr reoli eu lefelau egni.
- Pa bryd y byddwch yn bwyta – pwysig i fyfyrwyr ag anghenion meddygol.
- Pa bryd ac ymhle y bydd toiledau ar gael.
- Pa offer fydd angen i fyfyrwyr eu cario bob dydd.

## 8. Iechyd staff a myfyrwyr.

Mae’n arfer safonol i gasglu gwybodaeth am anghenion iechyd myfyrwyr, ac i staff fod wedi’u hyfforddi mewn cymorth cyntaf meddygol. Mae staff yn aml yn teimlo eu bod yn barod am broblemau meddygol, ond mae heriau iechyd meddwl yn bryder cynyddol.

Dylech fod yn ddeall na fydd rhai myfyrwyr yn datgelu.

Oherwydd dwyster gwaith maes (yn enwedig tripiau preswyl) ac oriau hir gyda’r un bobl, gall teithiau maes fod yn her feddyliol i staff a myfyrwyr. Ar deithiau maes bydd yn rhaid i staff ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol.

- Dylech ystyried dilyn cwrs cymorth cyntaf iechyd meddwl.
- Ceisiwch greu amgylchedd sy’n grymuso staff a myfyrwyr i ddatgelu gwybodaeth er mwyn gallu cynnig cymorth digonol iddynt.
- Anogwch y myfyrwyr i gadw golwg ar ei gilydd a rhoi gwybod i chi os oes unrhyw broblemau neu bryderon yn codi.




Os bydd heriau meddygol neu iechyd meddwl mwy cymhleth dylech gael help gan wasanaethau proffesiynol priodol. Cofiwch gynnwys yr achosion hyn yn yr asesiad risg. Er gwaethaf eich ymdrechion gorau, efallai na fydd yn ddiogel i fyfyriwr ddod ar y trip, ac mae hynny’n iawn.

Byddwch yn ymwybodol o’ch cyfyngiadau: gofynnwch am gyngor a help.

# 9. Lleoliadau maes a EDI.

Addysgu myfyrwyr am sensitifrwydd diwylliannol ac amgylcheddol lleol eu lleoliadau maes.

Rydym yn aml yn meddwl am EDI yng nghyd-destun ein myfyrwyr ein hunain. Fodd bynnag, rhaid inni ystyried sensitifrwydd diwylliannol y mannau rydym yn ymweld â hwy i a) sicrhau nad ydym, fel ymwelwyr, yn amharchu arferion lleol a b) sicrhau na fydd diwylliannau lleol yn effeithio'n negyddol ar ein myfyrwyr.

Efallai y bydd angen i chi fod yn ymwybodol o agweddau lleol:

- Rhywedd, hunaniaeth ryweddol, a gwisg.
- Rhywioldeb a chrefydd.
- Bwyd ac alcohol.
- Safleoedd maes e.e. henebion sanctaidd neu statws (e.e. SoDdGA).




Gall lleihau teithio a defnyddio lleoliadau maes pellennig drwy fabwysiadu opsiynau maes lleol neu ar-lein gael buddiannau EDI a chynaliadwy a gall helpu i warchod safleoedd sensitif.




Gall creu teithiau maes cynhwysol hefyd hybu'r agendâu cynaliadwyedd.

# 10. Nid ydych ar eich pen eich hun.




Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan y gymuned i'r gymuned.

Mae paratoi teithiau maes yn cymryd llawer o amser ac maent yn cynnwys nifer o ffactorau sy'n cystadlu (cost, deilliannau dysgu a gofynion gweddill y cwricwlwm). Gall ychwanegu haen arall o 'faterion myfyrwyr', argyhoeddi staff eraill o'r angen i wneud hynny a chyflawni rhywbeth a all, ar y diwrnod, gael ei effeithio gan rywbeth mor sylfaenol â'r tywydd, achosi straen.

Yn y pen draw, bydd gwell cynhwysiant mewn addysgu maes yn golygu profiad gwell i'r garfan gyfan. Mae gwneud addasiadau EDI a darparu dulliau ychwanegol o gynnig cymorth yn fuddsoddiad tymor hir, a fydd yn helpu eich timau maes am flynyddoedd i ddod.

Ewch i [www.cultivate-project.com](http://www.cultivate-project.com) am storïau a thechnoleg ddigidol sy'n helpu EDI yn y maes.

# Rhagor o wybodaeth

Mae ein gwefan www.cultivate-project.com yn cynnwys storïau, adolygiadau o dechnoleg ddigidol ac adnoddau sydd â'r nod o hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y maes.

# Rydym yn argymell eich bod yn darllen y canlynol


Giles, S., Jackson, C. a Stephen, N., 2020. Barriers to fieldwork in undergraduate geoscience degrees. Nature Reviews Earth & Environment, 1(2), tt.77-78.

Houghton, J. J., Morgan, D. J., Gordon, C. E., Stokes, A., Atchison, C. L., Collins, T. D., Craven, B., a Willis, K.: Access Anglesey 2018: Lessons from an inclusive field course, Adv. Geosci., 53, 183–194, https://doi.org/10.5194/adgeo-53-183-2020

Stokes, A., Feig, A.D., Atchison, C.L., a Gilley, B., 2019, Making geoscience fieldwork inclusive and accessible for students with disabilities: Geosphere, Cyf. 15, Rhif 6, t. 1809–1825, https://doi.org/10.1130/GES02006.1

# Cydnabod

Ariannwyd yr ymchwil gan grant Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) (NE/W007614/1: CULTIVATE) a ddyfarnwyd i Dr Lynda Yorke (PI), Dr Simon M. Hutchinson (co-I), a Dr Liz Hurrell (co-I).

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn eich digwyddiad hackathon ymchwil (COESE2022LY/CULTIVATE/01A) a'n gweithdy lledaenu, sydd wedi gwneud cyfraniad pwysig at y syniadau ac at ddatblygu'r llyfryn '10 ffordd i...' a gwefan y prosiect.

Cynhyrchwyd gan Dr **Lynda Yorke**, Dr **Simon M. Hutchinson**, a Dr **Liz Hurrell**, gyda chyfraniadau gan y **gymuned academaidd**.

Cafodd y lluniau eu lluniadu gan **Claire a Becky** o More than Minutes yn ystod y ddau ddigwyddiad CULTIVATE.

Cyfieithiad Cymraeg gan Cymen.

Prifysgol Bangor, Prifysgol Salford, Prifysgol Efrog, Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol.

## Cymerwch ran

Cafodd y prosiect ei arwain gan Dr Lynda Yorke (PI), Dr Simon M. Hutchinson (co-I) a Dr Liz Hurrell (co-I).




Cysylltu â ni:

[l.yorke@bangor.ac.uk](mailto:l.yorke@bangor.ac.uk) ; [s.m.hutchinson@salford.ac.uk](mailto:s.m.hutchinson@salford.ac.uk) ; [liz.hurrell@york.ac.uk](mailto:liz.hurrell@york.ac.uk)

Ewch i wefan prosiect CULTIVATE project am ragor o wybodaeth ac adnoddau:

[www.cultivate-project.com](http://www.cultivate-project.com)